

CYFLWYNIAD

Yng Nghymru, cedwir geifr yn bennaf at y dibenion a ganlyn: cynhyrchu llaeth, cig neu flew (mohair a cashmere); i sioeau; neu fel anifeiliaid anwes. Does dim data dibynadwy ar niferoedd geifr yng Nghymru er bod daliadau yn fwy cyffredin yn ne'r wlad. Yn y DG yn gyffredinol, mae oddeutu 88,000-93,000 o eifr gan gynnwys 30,000 o eifr fanw fagu sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu llaeth. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar gadw geifr i gynhyrchu llaeth.

BRIDIAU

Y pedwar brid pur mwyaf cyffredin a ddefnyddir i gynhyrchu llaeth yw: Saanen Prydeinig; Eingl Nubian; Toggenburg Prydeinig; ac Alpaidd Prydeinig. Fodd bynnag, mae beinw croesfrid, croesiadau Saanen Prydeinig fel rheol, yn fwy cyffredin na'r beinw o frid pur.



Saanen Prydeinig



Eingl-Nubian



Toggenburg Prydeinig



Alpaidd Prydeinig

Bydd brid yr afr a ddewisir gan gynhyrchydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys dewis personol, pa stoc sydd ar gael, ac efallai yn bwysicaf oll, y defnydd y bwriedir ei wneud o'r llaeth yn y diwedd. Mae ffigyrau cynnyrch y gwahanol fridiau yn amrywio'n arw: gwerth cyfartalog bras am bob llaethiad yw 1,000kg, gyda chynnyrch o hyd at bron i 3,000kg wedi'i gofnodi am rai geifr Alpaidd Prydeinig. Yn gyffredinol, gall y brid Saanen Prydeinig (a'i groesiadau) a'r Toggenburg Prydeinig gynhyrchu meintiau gweddol uchel o llaeth â chynnwys protin sydd yn ddelfrydol ar gyfer y farchnad llaeth hylif. Ar y llaw arall, y mae cyfanswm cynnyrch y llaeth o'r Eingl Nubian yn gyffredinol is, ond mae mwy o solidau llaeth yn y llaeth, sy'n ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer gwneud caws. Fe gymer rhyw 100kg o llaeth i wneud 10kg o gaws caled neu 15kg o gaws meddal. Mae'r Eingl Nubian hefyd yn cynhyrchu epil mwy addas i'r farchnad gig. Dengys Tabl 1 gynnyrch a chyfansoddion llaeth y bridiau mwyaf cyffredin. Mae'r Alpaidd Prydeinig yn llai na'r bridiau eraill, sy'n cyfrif am y cynnyrch llaeth cymharol is o'u gymharu â'r Saanen Prydeinig a'i groes-fridiau. Mae ansawdd y llaeth yn uwch ac y mae'n fwy addas i bori'n rhydd. Mae'n werth nodi, kg am kg, y gall geifr gynhyrchu mwy o llaeth na gwartheg. Nid oes cwtâu ar gynhyrchu llaeth geifr.

Tabl 1. Data llaethu i'r prif fridiau o eifr godro yng Nghymru

Brid	Cynnyrch llaeth (kg) / Llaethiad	Braster %	Protin %
Croesfrid	1200	3.5	2.8
Saanen Prydeinig	1240	3.6	2.8
Eingl-Nubian	1040	4.5	2.7
Toggenburg	1170	3.3	3.5
Alpaidd Prydeinig	1099	3.5	3.0

LLAETH GAFR

Mae cyfansoddiad cyffredinol llaeth gafr (gweler Tabl 1) yn debyg i eiddo llaeth gwartheg. Fodd bynnag, mae llaeth gafr yn cynnwys cyfran uwch o fân globylau braster na llaeth gwartheg ac y mae hyn yn ei wneud yn haws ei dreulio - yn enwedig i blant ifainc iawn, yr henoed a'r llesg. Credir hefyd fod llaeth gafr yn llesol o ran lliniaru symptomau asthma a llid ar y croen. Dylid nodi fod y lactos mewn llaeth gafr yn union yr un fath â'r hyn sydd mewn llaeth gwartheg ac nad yw'r llaeth yn addas i bobl na fedrant oddef lactos.

O'i gymharu â llaeth gwartheg, mae gan laeth gafr lefelau uwch o Fitamin A a niacin, ond lefelau is o Fitaminau B₆, B₁₂ ac asid ffolig.

Mae'r farchnad am laeth gafr a chynhyrchion llaeth gafr fel petai'n tyfu'n raddol. Mae gan gynhyrchwyr y dewis naill ai o werthu eu llaeth i brosesydd (mae'r cyfle am wneud hyn yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar leoliad) neu sefydlu eu cyfleusterau eu hunain i ychwanegu gwerth at y cynnyrch, trwy gynhyrchu nwyddau megis caws ac iogwrt.

CYLCHOEDD OESTRWS a LLAETHIAD

Mae oestrws mewn geifr yn gylchol a than amodau golau naturiol, fe'i cychwynnir wrth i'r dyddiau fyrhau yn yr hydref. Rhyw bum mis yw cyfnod cario'r afr. Gall llaethiad barhau hyd at ddwy flynedd wedi geni'r epil mewn gafr nad yw'n cario myn, ond bydd y llaethiad hwy hwn yn golygu cynnyrch is nac a geir os bydd y fanw yn bridio eto yr hydref wedyn. Er mwyn cael dosbarthiad mwy gwastad o gynhyrchu llaeth ar hyd y flwyddyn, medrwyd ddefnyddio golau artiffisial a/neu sbwng hormonau i ddylanwadu ar y cylch oestrws.

EPIL GWRYW

Fel gyda gwartheg godro, bydd tynged yr epil gwryw yn ystyriaeth bwysig i'r sawl sy'n magu geifr godro. Yng Nghymru, mae'n arferol i'r myn gwryw naill ai gael ei fagu am gig (naill ai ar yr un fferm neu ei werthu ymlaen i fasnachwr cig arbenigol) neu ei ddinistrio heb greulondeb.

PORTHIANT a DŴR

Mae deiet ddigonol a chytbwys yn hanfodol i iechyd, lles a chynhyrchedd unrhyw anifail. Gan mai anifeiliaid cnoi cil yw geifr, mae'n bwysig fod cyfran uchel (o leiaf 50% ar sail pwysau sych) o'u bwyd yn cael ei gyflenwi fel porthiant (gwair neu silwair fel arfer). Mae gafr sy'n llaethu angen llawer o ynni, a dylech geisio cyngor proffesiynol er mwyn gofalu fod y dogn yn ddigonol.

Fel gyda gwartheg godro, mae modd dylanwadu ar gyfansoddiad y llaeth, yn enwedig y cynnwys braster, trwy addasu ymborth y geifr. Fel gyda gwartheg, mae cynnwys mwy o ffibr yn arwain at gynnwys braster uwch yn y llaeth.

Mae dŵr yn hanfodol i eifr godro, yn enwedig i eifr banw sy'n llaethu os am gael y cynnyrch uchaf o laeth. Gan nad yw geifr yn hoffi yfed dŵr oer iawn, gallant yfed llai mewn tywydd oer, a gall y cynnyrch llaeth o'r herwydd leihau.

CARTREFU

Mae geifr, yn enwedig y bridiau godro, yn borwyr naturiol. Yn wahanol i ddefaid, ni fedrant ffynnu ar bori yn unig. Felly, mae'n arferol i eifr gael eu cartrefu, o leiaf am ran o'r amser. Fel hyn, mae modd eu porthi a rhoi dŵr iddynt. Hefyd, nid yw geifr yn hoffi bod yn oer a llaith, ac y mae'n hanfodol eu bod yn medru cysgodi'n wastad mewn lle sych sy'n rhydd o ddrafftiau. Dylech ganiatáu 1.5metr sg. i bob gafr, a rhaid i'r lle fod yn ddigon uchel i'r geifr ymddwyn yn naturiol trwy sefyll ar eu traed ôl.

IECHYD

Dylech geisio cyngor proffesiynol yn wastad am iechyd gyrr o eifr. Ymysg meysydd y dylech fod yn arbennig o ofalus gyda geifr mae: pydredd traed a charnau yn gordyfu; llyngyr (helminths); clefydau bacteriol, yn enwedig clefyd arenau pwdr - achosir gan facteria clostridiol; a thetanws. Mae'n bwysig iawn deall a chydymffurfio â deddfwriaeth am beidio â rhoi llaeth i'w yfed gan bobl wedi defnyddio rhai mathau o gyffuriau.

DEDDFWRIAETH

Ers i fwy o ofynion deddfwriaethol gael ei gyflwyno ers canol y 1990au, lleihau wnaeth nifer y geifr a gedwir yng Nghymru. Rhaid i ddarpar-gynhyrchwyr ystyried y gofynion deddfwriaethol yn ofalus iawn. Yn arbennig, mae Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) 1995 yn bwysig. Mae'n anghyfreithlon gwerthu llaeth i'w yfed gan bobl os nad oes gennych drwydded i wneud hynny.

Daeth deddfwriaeth yn ymdrin ag adnabod ac olrhain geifr i rym ym mis Chwefror 2003: rhaid i unrhyw afr a anwyd wedi 01/01/2002 gael ei marcio â nod diadell/gyrr. Ers 01/02/2003 rhaid i bob gafr unigol fod â rhif unigryw, yn ychwanegol at y nod diadell/gyrr.

Mae'n ofyniad cyfreithiol adrodd am drigo unrhyw afr sy'n hŷn na 18 mis trwy ffonio 0800 525890.

MWY O WYBODAETH

Mae mwy o wybodaeth am deddfwriaeth sy'n effeithio ar eifr ar dudalennau amaethyddol gwefan y Cynulliad. Am fwy o wybodaeth am agweddau ymarferol hwsmonaeth geifr a rheoli busnes, mae gan y Gymdeithas Eifr Brydeinig lawer o daflenni a gwefan llawn gwybodaeth – www.allgoats.com.